# Y Pwyllgor Darlledu

## BCC(3)-04-03 (p2) : 12 Mai 2008

### Ymateb Channel 4 i'r Pwyllgor Darlledu sy'n ystyried Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus

### 1. Beth yw diben Channel 4?

Lansiwyd Channel 4 ym 1982 gyda'r genhadaeth eglur i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus amgen i'r hyn a gynigir gan y BBC ac i gyflawni cylch gwaith penodol sy'n canolbwyntio ar arloesedd, creadigrwydd ac amrywiaeth yn bennaf - gan ddarparu rhaglenni sy'n diwallu diddordebau lleiafrifoedd na chânt wasanaeth da gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y brif ffrwd fel arall. Nodir cylch gwaith Channel 4 yn neddfwriaeth y DU yn Neddf Cyfathrebu 2003, sy'n nodi

"y cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer Channel 4 yw darparu ystod eang o raglenni amrywiol ac o ansawdd uchel, sy'n cyflawni'r canlynol yn arbennig -

sy'n dangos arloesedd, arbrofi a chreadigrwydd o ran ffurf a chynnwys rhaglenni;

sy'n apelio at chwaeth a diddordebau cymdeithas y mae ganddi ddiwylliant amrywiol;

sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i fodloni'r angen i'r sianelau gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig i gynnwys rhaglenni o natur addysgol a rhaglenni eraill o werth addysgiadol;  ac

sy'n dangos cymeriad trawiadol."

Ym mis Mawrth 2008, aeth Channel 4 ati i lansio Next On 4, a oedd yn amlinellu dibenion cyhoeddus eglur ar gyfer y sianel;

meithrin talent newydd a syniadau gwreiddiol

hyrwyddo lleisiau amgen a phersbectifau ffres

herio pobl i weld y byd mewn ffordd wahanol

ysbrydoli newid ym mywydau pobl

Fel darlledwr-gyhoeddwr, nid yw Channel 4 yn cynhyrchu ei rhaglenni ei hun, ond mae'n eu comisiynu gan dros 300 o gwmnïau cynhyrchu annibynnol ar draws y DU, sy'n nifer llawer uwch nag unrhyw ddarlledwr arall, gan gynnwys y BBC cyfan. Mae'n cydweithio'n agos iawn gyda'r sector cynhyrchu annibynnol, gan fuddsoddi llawer mewn hyfforddiant a gweithgarwch datblygu talent ar draws y diwydiant.

### 2. Rôl Channel 4 fel darlledwr gyhoeddwr

Mae Channel 4 yn cyflawni rôl allweddol wrth gynorthwyo creadigrwydd ym myd teledu ac mewn rhannau eraill o'r economi creadigol.  Mae gwaith dadansoddi a wnaethpwyd o adroddiad PWC a gomisiynwyd gan Channel 4 yn ddiweddar yn awgrymu y gallai effaith economaidd gyffredinol Channel 4 fod yn werth hyd at £2bn yn y DU o ran Gwerth Ychwanegol Crynswth yn 2006, ac y gallai fod yn cynnal 22,000 o swyddi ar draws y rhanbarthau o fewn economi y DU.

Fel darlledwr-gyhoeddwr, gwelwyd Channel 4 yn darparu'r ysgogiad cychwynnol ar gyfer datblygiad y sector cynhyrchu teledu annibynnol yn y DU yn y 1980'au.  Pan sefydlwyd Channel 4, nid oedd y sector annibynnol yn bodoli i bob pwrpas - bellach, mae'n cynhyrchu refeniw sy'n werth dros £2 biliwn at ei gilydd.

Yn ogystal, mae Channel 4 yn gwneud mwy nag unrhyw ddarlledwr arall i gynorthwyo gweithgarwch cynhyrchu annibynnol ar draws y cenhedloedd a'r rhanbarthau.  Mae trwydded Channel 4 yn mynnu bod o leiaf 30% (yn ôl cyfanswm a gwariant) o'r gwaith comisiynu gwreiddiol yn cael ei sicrhau gan gwmnïau wedi'u lleoli yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau.  Mae Channel 4 wedi llwyddo i fodloni'r cwota hwn yn gyson, gan fuddsoddi dros £1 biliwn er 1998.  Yn ôl data Pact, roedd buddsoddiad Channel 4 mewn rhaglenni rhwydwaith a ddarlledir am y tro cyntaf gan gwmnïau annibynnol yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau yn werth £165 miliwn yn 2006 - gwelwyd ITV yn gwario £137m, y BBC yn gwario £95m a Five yn gwario £29m.

Yn ogystal â chomisiynu, mae gan C4 ystod eang o fentrau oddi ar y sgrîn sy'n ceisio cynnig cymorth strategol i gwmnïau wedi'u lleoli y tu allan i Lundain - gan gynnwys cronfa ddatblygu o £0.5 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer cwmnïau y Tu allan i Lundain yn unig, yn ogystal â rhaglenni hyfforddi a datblygu talent a mentrau noddi a phartneriaeth ehangach.

Yn ôl adroddiad yn 2007 gan EKOS a gomisiynwyd gan Channel 4, dim ond Channel 4 sy'n meddu ar strategaeth eglur a pharhaus i gynorthwyo gweithgarwch cynhyrchu annibynnol ar draws y cenhedloedd a'r rhanbarthau:

""Mae'n ymddangos bod Channel 4 ar ei phen ei hun ymhlith y prif Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus wrth gyfleu rôl y darlledwr o fewn economi creadigol ehangach yn ei strategaeth ar gyfer y cenhedloedd a'r rhanbarthau." "

### 3. Cyd-destun hanesyddol Cymru, Channel 4 ac S4C

Mae rôl Channel 4 yng Nghymru wedi bod yn unigryw o'i gymharu â'i rôl yng ngweddill y wlad, yn bennaf o ganlyniad i sefyllfa hanesyddol S4C, y mae bob amser wedi bod yn gyfrifol am y gofod analog a ddefnyddiwyd gan Channel 4 yng ngweddill y DU. Nid oes modd i'r mwyafrif helaeth o gartrefi yng Nghymru fanteisio ar fersiwn analog Channel 4, felly ni fu gan Channel 4 statws darlledwr cenedlaethol yng Nghymru.

Yn hanesyddol, mae Channel 4 wedi sicrhau bod ei hamserlen rhwydwaith ar gael i S4C, a ddangosir ar wahanol adegau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ein rhaglenni mwyaf poblogaidd - megis "Hollyoaks, Deal or No Deal, Countdown, Skins, The Paul O'Grady Show "a "Location, Location, Location" - yn ogystal â'n rhaglenni poblogaidd eraill y byddwn yn eu mewnforio, megis "The Simpsons" a "Friends. "Nid yn unig y mae Channel 4 yn darparu rhagor o oriau rhaglenni i S4C nag unrhyw rwydwaith arall, nid oes unrhyw sianel arall yn darparu ei rhaglenni masnachol mwyaf poblogaidd fel hyn.

Mae S4C yn gwerthu amser hysbysebu wedi'i seilio ar amserlen rhwydwaith Channel 4, ond nid oes yn rhaid iddi dalu am y cynnwys. Yna, caiff yr arian sy'n cael ei sicrhau o refeniw hysbysebu ei fuddsoddi mewn rhaglenni Cymraeg. Yn hyn o beth, mae Channel 4 wedi gwneud buddsoddiad sylweddol iawn mewn rhaglenni Cymraeg mewn ffordd anuniongyrchol.

Yn ogystal, mae'r iaith Gymraeg wedi cael effaith arwyddocaol, ac unigryw, ar y sector cynhyrchu yng Nghymru. Mae'r pwysigrwydd cenedlaethol o gynnal yr iaith Gymraeg wedi creu marchnad ddarlledu leol gref iawn - sydd wedi diogelu ac annog twf cwmnïau Cymraeg. Mae hyn wedi darparu sail gadarn a diogel, gan alluogi sawl cwmni Cymreig annibynnol i dyfu eu busnesau trwy gaffael cwmnïau eraill - mae Boomerang wedi prynu'r cwmnïau Cymreig Fflic, Alfresco, Mwinci a Theledu Apollo dros y 3 blynedd ddiwethaf, a gwelwyd Tinopolis yn mynd yn groes i dueddiadau'r farchnad trwy brynu'r cwmni o Lundain, TV Corp, a chan sicrhau bod gan y cwmni bortffolio cenedlaethol o gwmnïau mewn ystod o genres bellach, gyda'i bencadlys yn Llanelli.

Erbyn hyn, mae Tinopolis ymhlith y 10 cwmni annibynnol mwyaf yn y wlad ac mae'n berchen ar gwmnïau y mae ganddynt berthnasoedd cadarn iawn gyda Channel 4 - mae Mentorn, er enghraifft, yn cynhyrchu rhai o raglenni amlycaf Channel 4 - gyda'r enghreifftiau a welwyd yn ddiweddar yn cynnwys y gyfres arobryn "Britz", yn ogystal ag "A Very Social Secretary, Iraq: The Lost Generation, Unreported World" a "The Trial of Tony Blair. "Mae cwmni arall y mae Tinopolis yn berchen arno, Sunset & Vine, wedi bod yn darparu rhaglenni chwaraeon allweddol Channel 4 - gan gynnwys rhaglenni rasio ceffylau Channel 4 a'n rhaglenni criced rhyngwladol.

## 4. Gwaith Channel 4 yng Nghymru

Yn ogystal â'n perthynas hanesyddol gydag S4C, mae Channel 4 wedi meithrin perthnasoedd uniongyrchol gyda'r gymuned gynhyrchu Gymreig hefyd. Ar sail y data sydd ar gael, mae Channel 4 wedi comisiynu 15 prosiect gan bum cwmni gwahanol yng Nghymru er 1998, y mae eu gwerth cyfunol wedi bod yn £2.6m. Mae'r gwaith comisiynu yn perthyn i ddau genre allweddol - adloniant ffeithiol a chwaraeon. Yn 2007, £0.603m oedd cyfanswm gwariant rhwydwaith Channel 4 yng Nghymru. Roedd hwn wedi cynyddu o gyfanswm o £0.449m yn 2006. Mewn adroddiad a baratowyd gan Pact yn ddiweddar, amlygwyd cynnydd yng ngwariant rhwydwaith Channel 4 yng Nghymru - o 1% o'r oriau yn 2005, i 2% yn 2006.

### Astudiaethau achos

**"Boomerang a 4Sports "**

**Ar hyn o bryd, mae Channel 4 yn cynnal trafodaethau ynghylch symud canolfan ddigidol 4Sport i Abertawe, gyda Boomerang, cwmni Cymreig sy'n dod i'r amlwg, yn rheoli'r safle dan gontract 3 blynedd. Yn ogystal â'r prosiect hwn, mae Channel 4 wedi gweithio gyda Boomerang ar ei rhaglenni llwyddiannus Freesports on 4, yn ogystal â sioeau comedi gan gynnwys Pritch & Panch a Mayhem Makers.**

**" Presentable a Late Night Poker "**

**Gwelwyd Presentable yn lansio'r cynnydd byd-eang yn yr arfer o ddarlledu gemau pocer ar y teledu gyda rhaglen Late Night Poker ar Channel 4. Yn 2006, prynwyd y cwmni gan RDF Media plc, ac mae wedi tyfu i fod yn un o'r cwmnïau cynhyrchu mwyaf yng Nghymru.**

**" Big Art Project ac Aberteifi "**

**Mae Big Art Project yn fenter cyfryngau digidol arobryn sy'n cynnig y cyfle i unigolion a chymunedau gomisiynu gweithiau celf sylweddol gan artistiaid rhyngwladol cyfoes a blaenllaw. Roedd Aberteifi ymhlith un o'r saith cymuned a ddewiswyd o blith 1500 o geisiadau i weithio gyda churaduron ac artistiaid i greu eu comisiwn celf gyhoeddus eu hunain. Aeth y tîm ati i ddewis yr artist aml-gyfrwng arloesol sy'n hanu o Fecsico a Chanada, R**

**afael Lozano-Hemmer**

**, i ddatblygu gwaith celf cyhoeddus newydd ar gyfer Cei Tywysog Charles, gyda'r nod o annog twristiaid i ymweld â'r ardal, yn ogystal â chreu man cyhoeddus newydd, deniadol ac unigryw yng nghanol Cei Tywysog Charles a rhaglen adfywio Aber Afon Teifi. Bydd Aberteifi yn cael ei chynnwys mewn cyfres ynghylch Prosiect Big Art a ddarlledir yn ystod yr oriau brig ar Channel 4 yn ystod yr hydref.**

Yn ogystal â chomisiynau, mae'r cwmnïau Cymreig Boomerang a Green Bay wedi elwa o fuddsoddiad a chymorth o fath arall gan

Channel 4 mewn partneriaeth ag Awdurdod Datblygu Cymru (a oedd yn werth £225,000) er mwyn eu galluogi i gyflogi staff datblygu busnes.

Mae un o bartneriaid allweddol Channel 4, sef TRC (Television Research Centre yn flaenorol) wedi bod yn allweddol wrth ddarparu cymorth a chyngor datblygu i gwmnïau yng Nghymru hefyd. Sefydlwyd TRC gan Channel 4 ym 1998 er mwyn helpu i gynorthwyo a thyfu'r gymuned greadigol, ac ers hynny, mae cwmnïau Cymreig, gan gynnwys Tinopolis, Green Bay, Presentable, Boomerang, Aspect, Indus a Fulmar wedi manteisio ar ei gyrsiau hyfforddi ar lefel uchel yn rheolaidd, yn ogystal â chyfleusterau eraill gan gynnwys cyfleoedd i droi at gomisiynwyr a gwaith ymchwil am y diwydiant.

### 5. Ymrwymiadau ac argymhellion ar gyfer y dyfodol

Bydd y Newid i Ddigidol yn cael ei gwblhau yng Nghymru yn 2010. Yn dilyn hyn, bydd statws presennol S4C a Channel 4 yn newid, gan na fydd unrhyw ddarlledu teledu analog yng Nghymru mwyach. Bydd S4C yn datblygu i fod yn wasanaeth Cymraeg yn fwy na dim, a bydd Channel 4 yn datblygu i fod yn ddarlledwr cenedlaethol go iawn, a fydd ar gael i'r holl gartrefi yng Nghymru am y tro cyntaf ar sail gwasanaeth am ddim. O ganlyniad, bydd Channel 4 yn ymrwymo i sicrhau y cyflawnir ein hamcanion craidd ar draws y DU cyfan, gan gynnwys Cymru.

### Next on 4

Yn ddiweddar, aeth Channel 4 ati i lansio Next on 4, glasbrint strategol sy'n cyfleu rôl Channel 4 yn yr oes ddigidol. Roedd yn cynnwys ymrwymiadau penodol ynghylch cryfhau rôl Channel 4 yn y cenhedloedd, gan gynnwys;

* cynyddu cyfran ein cyllideb raglenni sy'n cael ei gwario ar y cenhedloedd dros 50% erbyn 2012.

* sefydlu Cronfa Beilot y Cenhedloedd sy'n werth £1 miliwn er mwyn delio â diffyg màs critigol yn y sector cynhyrchu yn y cenhedloedd llai.

Bydd y gwariant hwn yn canolbwyntio ar gyfresi sy'n dychwelyd mewn genres megis drama, comedi ac adloniant ffeithiol.

### 4IP

Yn ogystal â'r ymrwymiadau hyn sy'n ymwneud â darlledu, mae Channel 4 wedi cydnabod y ffaith bod natur cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn newid, trwy lansio 4IP, cronfa o £50m ar gyfer prosiectau sy'n darparu cynnwys sy'n werthfawr i'r cyhoedd ar blatfformau cyfryngau digidol. Bydd y gronfa yn ein galluogi i sicrhau cyflawniad ein dibenion cyhoeddus mewn ffyrdd hollol newydd, gan weithio gyda chenhedlaeth newydd o dalent creadigol yn y cyfryngau digidol, a darparu ffyrdd newydd i gynulleidfaoedd ymgysylltu â'u diddordebau personol a gyda materion cymdeithasol ehangach. Mae'n fenter ar y cyd rhwng Channel 4 a rhwydwaith o bartneriaid ar draws y DU, a bydd yn cynnwys staff pwrpasol y tu allan i Lundain, a fydd yn cydweithio â'n holl bartneriaid ariannu.

Gallai 4IP gynnig cyfle go iawn i sicrhau twf yn sector cynhyrchu y cyfryngau digidol Cymreig, yn ogystal â'r posibilrwydd o fuddsoddi mewn prosiectau sy'n ceisio ymgysylltu â dinasyddion Cymru, a'u cynnwys. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes gan 4IP bartner strwythurol yng Nghymru, ac nid yw wedi llwyddo i sicrhau cronfa ariannol ddynodedig. Efallai y bydd modd i Gronfa Gydgyfeirio Cymru fod o gymorth yn hyn o beth - er nad oes modd i'r gronfa hon gynnwys cwmnïau wedi'u lleoli yng Nghaerdydd - lle y mae llawer o'r sector cynhyrchu Cymreig wedi'i leoli. Mae Channel 4 yn awyddus i weithio gyda Chymru er mwyn helpu'r sector hwn i dyfu, felly mae'n gofyn i'r pwyllgor annog partneriaid yng Nghymru i gefnogi'r fenter hon.

### Cryfhau'r sector cynhyrchu Cymreig

Mae gan Channel 4 y potensial i gyflawni rôl pwysig wrth ddatblygu a thyfu'r sector cynhyrchu Cymreig, ac mae ganddo rôl trawiadol wrth feithrin cwmnïau talent newydd. Fodd bynnag, mae maint Channel 4 o'i chymharu â maint y BBC ac ITV yn golygu nad yw'n ddigon mawr i dyfu a chynorthwyo'r gymuned greadigol yng Nghymru ar ei phen ei hun. Yn ogystal, fel darlledwr-gyhoeddwr, nid oes ganddi safleoedd cynhyrchu neu gyfleusterau y mae'n gallu eu symud o gwmpas y DU. Mae'n hollol ddibynnol ar ystod a chryfder y sector annibynnol am ei rhaglenni.

Er bod y BBC wedi lleoli rhywfaint o'i gwaith cynhyrchu mewnol yng Nghymru, sef "Doctor Who, "mae ei buddsoddiad yn y sector cynhyrchu brodorol wedi bod yn gyfyngedig. Mae strwythur cyfredol y tirlun darlledu yn y DU yn golygu na fydd unrhyw gynhyrchu mewnol ychwanegol yn y BBC yn arwain at fawr iawn o fudd ehangach i'r sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru gan nad oes modd i weddill y sector fanteisio ar yr adnoddau hyn. Er enghraifft, os byddai cyfres "Dr Who "yn cael ei chynhyrchu gan gwmni Cymreig annibynnol, byddai modd i Channel 4 droi at y cwmni hwn er mwyn cynnig y cyfle iddo gynhyrchu drama o bosibl. Yn ei dro, byddai'r cwmni hwn mewn sefyllfa gref i ddatblygu i fod yn rym pwysig yn y DU ym maes cynhyrchu drama sy'n dychwelyd. Ar hyn o bryd, mae grŵp hynod o dalentog a hynod o fedrus yn gweithio ar ddrama sylweddol yng Nghymru ac maent wedi'u clymu yn llwyr i'r BBC.

Mae'r cyfyngiadau hyn yn arwain at gryn her i'r sector cyfan, ac rydym yn dymuno gweithio gyda darlledwyr eraill er mwyn helpu i gryfhau'r sail gyflenwi yng Nghymru. Yn ogystal, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda chwmnïau cynhyrchu annibynnol, partneriaid rhanbarthol a chyrff cenedlaethol ar fentrau a gynlluniwyd i ddelio â'r sialensiau hyn a chreu cwmnïau o faint - er enghraifft, rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda Busnes Creadigol Cymru, Skillset, BBC ac ITV yn ddiweddar i ddatblygu cynllun Denu Talent, gyda'r nod o ddenu uwch-gynhyrchwyr ac chynhyrchwyr cyfresi y mae ganddynt brofiad rhwydwaith, i helpu rhai cwmnïau i sicrhau comisiynau mwy. Mae Channel 4 yn awyddus i barthau gyda phartneriaethau o'r fath er mwyn helpu i greu sector cynhyrchu cryfach a mwy cynaliadwy yng Nghymru.

**Cyfeiriadau**


1

Deddf Cyfathrebu 2003 2 Next on 4 3

Next on 4

4 The impact of Channel 4 on the UK independent sector, creative industries "and the economy", PriceWaterhouseCoopers, Mawrth 2007 5 Cyfrifiad Cynhyrchu Annibynnol Pact 2007/08 6 "Channel 4's contribution to the nations and regions", EKOS, Rhagfyr 2007 7 "The Production Trend Report for Out of London", Pact, Ionawr 2008 8

"Channel 4's contribution to the nations and regions", EKOS, Rhagfyr 2007

9 "Channel 4's contribution to the nations and regions", EKOS, Rhagfyr 2007 10 "Channel 4's contribution to the nations and regions", EKOS, Rhagfyr 2007 11 Ffigurau gwariant rhwydwaith Channel 4 12

"The Production Trend Report for Out of London, Pact, Ionawr 2008"

"13 Channel" 4's contribution to the nations and regions, EKOS, Rhagfyr 2007